# Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2023/24 – 2027/28

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Prifysgol Aberystwyth University |
| **Arweinydd Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru:** | Helen Jones |
| **E-bost:** | hej27@aber.ac.uk |

## Adran A: Trosolwg

### 1. Uchelgeisiau strategol

Yr hyn sy’n cysylltu ein strategaeth sefydliadol â'n hagenda cyfnewid gwybodaeth am 2023-28 yw cynhyrchu buddion cymdeithasol, canfod atebion lleol i fynd i'r afael â heriau byd-eang, a thrafod a chydweithio â chymunedau i ysgogi ein gwaith ymchwil ac arloesi.

Trwy ganolbwyntio ar yr hyn sy’n bosib i ni, ein cymhwysedd a’n diwylliant ar gyfer cyfnewid gwybodaeth fe wnawn welliannau i’r gwaith cyfnewid gwybodaeth yn y cyfnod strategol hwn.

Fel prifysgol ddwyieithog, bydd ein sylw cyson ar etifeddiaeth, iaith a diwylliant Cymru, yn sicrhau bod ein harloesi a'n dulliau cyfnewid gwybodaeth yn dod yn arferion cyd-gysylltiedig yn ein cymunedau, gan gynyddu cynhyrchiant, sgiliau, ac ymdeimlad cyffredin o bwrpas ac atebolrwydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (YBA) Prifysgol Aberystwyth fydd yn gyfrifol am gyflawni'r rhaglen waith ac ymestyn y gwelliannau a gyflawnwyd yn y strategaeth flaenorol i groesawu’r technolegau a'r rhwydweithiau dibynadwy sy'n hwyluso ein gwaith cyfnewid gwybodaeth a'r gwasanaeth a ddarperir i'r gymdeithas.

Gan ddefnyddio portffolio, rhaglen, a fframwaith rheoli cylch oes prosiect, bydd YBA yn parhau i fapio ein harloesedd a’r cryfderau sy'n seiliedig ar ein lleoliad i gyd-destun ein gwasanaethau cyfnewid gwybodaeth trwy gyfres o Hybiau a Chanolfannau (gweler adran 3).
Bydd YBA hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau, cynlluniau a fframweithiau galluogi (gweler y ffigur isod) a fydd yn datblygu'r strwythurau, yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i drefnu rhaglenni gwaith yn unol â’n hamserlen fuddsoddi a'r dirwedd gyllido allanol.


Ein cenhadaeth adrannol wrth gyflawni'r strategaeth hon yw rhagori mewn gwaith cyfnewid gwybodaeth a datblygu enw da am waith arloesi eglur, dibynadwy ac uchel ei werth.




(240 gair)

## 2. Grant Capasiti

Mae cyfnewid gwybodaeth yn elfen allweddol o ecosystem Prifysgol Aberystwyth sy'n ysgogi arloesi ac effaith.




Bydd y bobl, y sgiliau a'r systemau sy'n gyrru ein perfformiad yn yr ecosystem hon yn defnyddio nifer o'r llwyfannau a sefydlwyd yng nghyfnod strategol 2019 -23 ar gyfer gwella dulliau gweithredu, ac yn canolbwyntio ar yr amcanion canlynol:

1: Sicrhau bod **capasiti** ein hadnoddau yn cyflawni ein huchelgais o gynyddu swm, ansawdd a gwerth ein gwaith cyfnewid gwybodaeth.

2: Cynyddu ein **cymhwysedd** i gyfnewid gwybodaeth trwy raglenni sgiliau sy'n cynyddu ein perfformiad ar draws sawl sianel gyfnewid gwybodaeth.

3: Datblygu **diwylliant** sy'n lledaenu ac yn hyrwyddo perfformiad cyfnewid gwybodaeth yn fewnol ac yn allanol, gan wella cydweithrediad â diwydiant, y gymuned, Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Bydd cryfderau ymchwil PA yn ogystal ag amcanion Polisi Arloesedd a Chyfnewid Gwybodaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig, sef cael Cymru gryfach, decach a gwyrddach, yn themâu traws-bynciol wrth gyflawni'r amcanion uchod.

Yn y tair blynedd diwethaf bu'n anoddach canfod staff yn ogystal â galluoedd ar gyfer arwain rhaglenni gwaith ac mae defnyddio mwy o offer digidol wedi bod yn strategaeth effeithiol i sicrhau gwytnwch a chapasiti'r cymorth sydd ar gael i waith cyfnewid gwybodaeth. **Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r strategaeth hon ac yn clustnodi'r grant capasiti i ariannu gallu digidol y staff a'r gwasanaethau cyfnewid gwybodaeth y maent yn eu darparu.** Ymgorfforir offer a gafodd ei gaffael yng nghyfnod 2020 -23 ac ychwanegir ato yn 2023 -28 er mwyn gwneud ein gweithgarwch yn fwy gweledol, a rheoli ein hymyriadau'n well er mwyn cynyddu a monitro gweithgarwch cynhyrchu incwm.
Mae crynodeb o'r offer digidol y bwriedir eu defnyddio i'w llawn botensial yn y cyfnod strategol nesaf hwn i'w weld isod.

| | Source | Comissioning started during 2020-23 | Comissioning planned for 2023-28 | Realising benefits beyond 2023 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| System | | | | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| Customer relationship Management | Microsoft Dynamics | ■ | | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Business Development management | Microsoft Dynamics | ■ | | | | ■ | ■ | ■ |
| Research Management Pre-award/ pre- KE contract | Worktribe | ■ | | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Research Management System Post-award/ post- KE contract | Worktribe | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Ethics Management System | In-house Custom Build | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Researcer expertise profiling and networking | PURE | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Funding opportunities profiling | Research Professional | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Research facilities profiling | PURE & Custom Build | | ■ | | | ■ | ■ | ■ |
| Contracts management portal | Minuet | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Intellectual property Inventor Portal | Minuet | | ■ | | | | | ■ |
| KE Toolkit | In-house Custom Build | | ■ | | | ■ | ■ | ■ |

(248 gair)

## Adran B: Cynnwys penodol

## 3. 2. Gweithgarwch masnacheiddio / creu incwm:

Sylfaen ein gweithgarwch cynhyrchu incwm yw canolbwyntio ar greu gwerth i'n cydweithwyr a'n cyllidwyr. Anelwn at wneud elw cynaliadwy o'n hasedau a'n hisadeiledd arloesi, a bwriedir buddsoddi i greu Canolfannau a Hybiau newydd a datblygu'r rhai sydd gennym er mwyn cynyddu cymhwysedd a chapasiti masnacheiddio.

Dylanwadir ar ddeinameg economaidd ein hardal yng Nghanolbarth Cymru gan gyfran uchel o fusnesau bach a microfusnesau, sydd mewn ardaloedd gwledig, mewn lleoliadau dwyieithog, ac sydd angen sgiliau ac arloesedd. Bydd ein canolfannau a'n hybiau yn clystyru gwasanaethau cyfnewid gwybodaeth ac atebion busnes arwyddocaol yn y sector rhanbarthol, yn ogystal â chysylltu'r rhanbarth â phrosiectau arloesi uchel eu gwerth ledled Cymru (gan gynnwys RhAC) a chyflawni'r anghenion busnes hyn mewn ffordd sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth a chydweithio yn y dyfodol.

Isod ceir crynodeb o'r gweithgareddau cynhyrchu incwm y byddwn yn eu blaenoriaethu a'u hyrwyddo trwy ein canolfannau a'n hybiau gan ddefnyddio CAYC, ac a gaiff eu hadlewyrchu yn ein canlyniadau HEBCI.

| | Collaborative Research | Contract Research | Consultancy | CPD & CE | IP & Commercialisation | Facilities | Regeneration | Public & Community Engagement |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dialogue Centre | ■ | | | ■ | | ■ | | ■ |
| Knowledge Exchange & Enterprise Hub | | | | ■ | ■ | | ■ | |
| National Spectrum Centre | ■ | ■ | ■ | ■ | | ■ | | |
| VetHub | ■ | ■ | ■ | | | ■ | | |
| AberInnovation | | | | | | ■ | ■ | |
| Green Futures Innovation Park | | | | ■ | | ■ | ■ | ■ |
| Crop Innovation Hub | ■ | ■ | ■ | | ■ | ■ | | |
| Rural Futures Hub | ■ | ■ | ■ | | ■ | | | ■ |
| Worlds We Want Hub | ■ | ■ | ■ | | ■ | | | ■ |
| AI Enabled World Hub | ■ | ■ | ■ | | ■ | | | ■ |
| Old College Enterprise Hub | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |

Ni fydd gweithgarwch a chymorth cyfnewid gwybodaeth yn cael eu cyfyngu i'r endidau hyn; byddant yn cael eu darparu ar draws pob un o ddisgyblaethau'r brifysgol yn unol ag egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth (gweler adran D) a meysydd ymchwil sy'n gryfderau i Brifysgol Aberystwyth.

Bydd yr hybiau a'r canolfannau'n dod yn bwyntiau angori i'r tîm YBA gael gweithredu'r strategaeth hon, cyfeirio *capasiti* cyfnewid gwybodaeth i feysydd a dargedir, hyrwyddo gwaith datblygu sgiliau i sicrhau'r effaith fwyaf, ac integreiddio ein gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth â gweddill y sefydliad.
Maent hefyd yn creu cysylltiadau thematig rhwng *galluedd* sy'n seiliedig ar leoliad, ysgogwyr ffyniant, blaenoriaethau buddsoddi Ymchwil a Datblygu Cymru, cenadaethau Arloesi Cymru. Bydd modd i'n cydweithrediadau â darparwyr AHO, colegau AB a sefydliadau AU eraill ganolbwyntio ar y cysylltiadau thematig hyn - a dod â'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i'r sgiliau a ddatblygwn.
Bydd dau gyfrwng cyfnewid gwybodaeth allweddol a gychwynnwyd yn ystod cyfnod strategol 2020-23 yn ysgogi'r newid i *ddiwylliant* entrepreneuraidd a chymunedol trwy gydol y cyfnod strategol hwn:

<u>Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth a Menter</u>
Yn gweithio o Barc Gwyddoniaeth Aberystwyth a chydag adnoddau a ddarperir gan yr adran YBA, bydd y ganolfan hon yn hyrwyddo gweithgareddau cefnogi cyfnewid gwybodaeth, megis hyfforddiant i wella ein gallu i gydweithio, mentora ar gyfer staff, creu cynlluniau cydnabod a gwobrwyo, hwyluso partneriaethau'r fargen dwf ranbarthol, cynorthwyo i reoli cleientiaid cyfnewid gwybodaeth, ceisiadau buddsoddi cyfalaf ar gyfer gwaith arloesi, isadeiledd ac adfywio economaidd, cymorth i gychwyn busnesau a mentrau deillio newydd.

<u>Y Ganolfan Ddeialog</u>
Fe'i dechreuwyd yn 2020 ac mae'r lleoliad pwrpasol cyntaf hwn ar gyfer deialog wedi'i agor ers mis Awst 2023. Arweinir y ganolfan gan arbenigwr rhyngwladol mewn rhaglennu a hwyluso deialog ac fe'i cefnogir gan reolwyr prosiect, gweinyddwyr ac aelodau tîm cyfathrebu YBA. Bydd yn pontio'r bwlch rhwng ymchwilwyr, diwydiant, polisi, ein cymunedau a'n gwasanaethau cyfnewid gwybodaeth sydd â galw mawr amdanynt. Bydd yn cynhyrchu incwm trwy ddeialog, cynllunio rhaglenni, hwyluso contractau gan gynyddu rhwydwaith deialog cyfnewid gwybodaeth i sefydliadau AU ac AB ledled Cymru, gwneuthurwyr polisi Cymru a'r Deyrnas Unedig, a sefydliadau cyhoeddus.

Amlinellir nodweddion allweddol rhaglen y Ganolfan Ddeialog yn adran 5 ac ar ein taflen wybodaeth sydd ar gael yma.

Mae rhagor o wybodaeth am bwysigrwydd strategol y ddarpariaeth gyfan o ganolfannau a'r hybiau uchod ar gael yn adran C(6).

(480 gair)

**3.1 Manylion ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol ar gyfer gweithgarwch masnacheiddio a chreu incwm:**

Mae ein hamgylchedd economaidd gwledig, ein daearyddiaeth, maint ein sefydliad, anghenion rhanbarthol a lleol yn dylanwadu ar ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) strategol. Er enghraifft:
Mae gennym gysylltiadau da â diwydiant, ond mae busnesau sydd o fewn ein cyrraedd ni a'n rhanbarth yn anghymesur o fach o ran maint, yn gyfyngedig o ran llif arian, ac mae bylchau mewn sgiliau a diffyg adnoddau yn atal eu twf ar raddfa fwy.

Effeithiwyd yn sylweddol ar y ffynonellau incwm adfywio sydd ar gael inni o golli cyllid Ewropeaidd, a bydd y gwahaniaeth yng ngraddfa'r cyllid grantiau adfywio ac arloesi yn rhanbarthol yn effeithio arnom y tu hwnt i 2025/6. Bydd angen gwneud i fyny am y colledion trwy gyfrwng ffrydiau cyfnewid gwybodaeth amgen y bydd modd iddynt ehangu’n gyflym yn unol â’r galw.

Yn dilyn adolygiad portffolio yn 2023, rydym yn cydnabod bod angen adnoddau ac amser sylweddol er mwyn datblygu ein portffolio eiddo deallusol. Gan y bydd amser y cylch trosglwyddo technoleg yn gwthio unrhyw fuddion incwm sylweddol a gyfyd o'n hymdrechion masnacheiddio y tu hwnt i'r cyfnod strategol hwn, bydd ein DPA yn canolbwyntio ar gynyddu cyfanswm yr arloesi a'r gweithgarwch masnacheiddio.

Mae prinder sgiliau amlwg ac arwyddocaol yng nghylch oes cyfan trigolion rhanbarthol a chenedlaethol, yn enwedig yng nghyswllt anghenion presennol y diwydiant. Yn dilyn adolygiad llawn o’r portffolio DPP/ Addysg Barhaus yn 2023, a oedd yn cynnwys mapio'r anghenion hyn i'n galluoedd addysgu, bydd ein DPA bellach yn canolbwyntio ar gynyddu nifer a gwerth ein cwsmeriaid a'n partner-ddarparwyr yn y sectorau, y rhanbarthau a’r pynciau targed.

Ein nod yw sicrhau pedair gwaith gymaint o ryngweithiadau a dyblu'r incwm o DPP/Addysg Barhaus yn y cyfnod strategol.

Yn ogystal â'r mesurau cenedlaethol, bydd ein DPA strategol yn canolbwyntio ar y metrigau canlynol:

- Twf cynyddol mewn partneriaethau ymchwil cydweithrediadol, a nifer y contractau
- Twf cynyddol mewn gwaith ymgynghori, yn y defnydd a wneir o'r adnoddau, nifer y cleientiaid ymchwil contract, a nifer y contractau.
- DPP ac Addysg Barhaus, cynnydd yn nifer y myfyrwyr a chontractau cleientiaid cyhoeddus/trydydd sector.
- Nifer myfyrwyr DPP gan fusnesau yn y rhanbarth
- Nifer myfyrwyr Addysg Barhaus
- Rhyngweithio â darparwyr AHO
- Graddfa datgelu dyfeisiadau a phresenoldeb mewn cyrsiau hyfforddiant Eiddo Deallusol/Datblygu Busnes
- Canlyniadau arolwg rhyngweithio a boddhad cwsmeriaid (Arolwg sefydliadol)

Byddwn yn anelu at ddyblu'r incwm o ymchwil gydweithrediadol a chontractau ymchwil yn y cyfnod strategol.

Gan y bydd incwm adfywio o gynlluniau cyllid strwythurol Ewropeaidd yn dod i ben i Brifysgol Aberystwyth yn 2023, byddwn yn targedu ffynonellau eraill o fuddsoddi gan gydnabod y gallai gymryd y cyfnod strategol cyfan i adennill yr incwm i'r un lefelau.

Bydd ymgyngoriaethau, adnoddau, ac ymchwil contractau sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Ddeialog yn cael eu monitro'n agos wrth i lwybrau rhyngweithio a masnacheiddio newydd ddod i'r amlwg ac wrth i'n cyfleusterau ddechrau dod yn rhan o'r gwaith yn 2023/24. Er enghraifft, bydd pwyslais ar effaith polisi cyhoeddus yng ngweithgareddau trafod y Ganolfan Ddeialog yn golygu ymgymryd â gwaith ymchwil polisi ac ymgynghori a gyllidir yn allanol; adeiladu rhwydwaith o fewn i PA yn ogystal â chyda rhanddeiliaid allanol i gael budd cymdeithasol, trylwyredd datblygu polisi, a chodi proffil PA fel sefydliad sy'n rhan gyflawn o waith ymchwil polisi cyhoeddus.

## 4. Cymorth ar gyfer tyfu busnesau newydd a sgiliau

Wrth deilwra cymorth i fusnesau bach a micro yn rhanbarthol, yn enwedig y rhai sydd â gallu i dyfu ac mewn sefyllfa i allforio, byddwn yn rhoi ystyriaeth i ysgogwyr economaidd ac anghenion busnes.
Mae modelau busnes yr holl ganolfannau/hybiau yn cynnwys ffrwd o weithgarwch rhwydweithio sy'n cysylltu busnesau bach a chanolig, yn ogystal â busnesau cenedlaethol mwy, â'r gweithredwyr gwledig llai neu ficro er mwyn ffurfio cysylltiadau busnes sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Mae hyn yn golygu bod modd i fusnesau llai sy’n hyblyg fanteisio ar rwydweithiau i gynyddu eu cymhwysedd, yn ogystal ag ennill gwybodaeth, profiad, a buddion masnachol y gellir eu cynyddu gan fusnesau mwy; ac mae'n rhoi busnesau mwy mewn sefyllfa i ddysgu gan y busnesau llai sut i fod yn hyblyg yn y gadwyn gyflenwi ac arloesi’n greadigol.

Mae strategaeth y Ganolfan Ddeialog yn sicrhau ein gweithgarwch cymorth busnes i gynyddu graddfa a gwerth ein gwaith cyswllt i sectorau diwydiannau sy'n tyfu. Ar ddiwedd y cyfnod strategol hwn bydd ei gallu unigryw i hyrwyddo yn ategu gweithgarwch yr Hwb Menter Busnes sydd wedi'i leoli yn adeilad yr Hen Goleg yng nghanol tref Aberystwyth.

Mae ein Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd arfaethedig a Champws Arloesi Menter Aberystwyth (ArloesiAber) yn ehangu ein gwasanaethau cymorth busnes a mentora gwledig yng Ngogerddan, Aberystwyth.

Mae rhan strategol ArloesiAber yn y gwaith o ddatblygu economi gryfach a mwy gwydn yng Nghanolbarth Cymru yn cael ei chyflawni trwy gefnogi cydweithrediadau Ymchwil a Datblygu, cyllid a chymorth sgiliau/ hyfforddiant i fusnesau lleol yn y sectorau bwyd, amaeth-dechnegol a biotechnoleg sy'n sicrhau diogelwch bwyd ac ynni adnewyddadwy i'n cenedl. Mae ArloesiAber hefyd yn cefnogi busnesau newydd yn y sector iechyd a'r sector digidol ac yn creu diwylliant bywiog i'n hentrepreneuriaid Cymraeg eu hiaith allu ffynnu.

Bydd ein hisadeiledd cymorth yn cynnwys gwasanaethau allweddol:

- Gwasanaeth datblygu sgiliau busnes a mentora.
- Lle i gynnal gweithgareddau, cydweithio, a hyrwyddo busnes.
- Offer ac adnoddau ar gyfer datblygu, profi, dilysu ac achredu dyfeisiadau.
- Cyllid a chymorth Ymchwil a Datblygu i gwmnïau ifanc sy'n arloesi atebion busnes ac yn bodloni gofynion strategaeth arloesi Cymru.

Bydd nifer o raglenni cymorth cystadleuol a gychwynnwyd yng nghyfnod strategol 2020 -23 yn cael eu hymgorffori ym mlynyddoedd 1 -2 ac yna'n cael eu ehangu ym mlynyddoedd 3-5 y cyfnod strategol hwn. Bydd y rhaglenni hyn yn cynorthwyo busnesau a gychwynnwyd gan fyfyrwyr a staff yn ogystal ag entrepreneuriaid busnesau bach lleol.
Mae enghreifftiau o'r rhaglenni hyn yn cynnwys:
Rhaglenni a gyflwynir trwy ArloesiAber:

- BioAccelerate – Canolbwyntio ar arloesi a busnesau newydd yn y sectorau biowyddorau, gofal iechyd, a bwyd.
- Launchpad – a fydd yn defnyddio rhaglen draws-sectoraidd a thraws-ranbarthol sy'n canolbwyntio ar fusnesau bach.

Cyflwynir y rhaglenni trwy dîm gyrfaoedd PA:

- AberPreneurs – Hyfforddiant mentergarwch i fyfyrwyr a staff er mwyn cynyddu nifer y busnesau newydd, gan gynnwys cystadleuaeth gwobr menter i fyfyrwyr.

Rhaglenni a gyflwynir trwy'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth a Menter:

- Rhaglen hyfforddi masnacheiddio ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ag iddi lawer o botensial mewn meysydd nad ydynt yn gysylltiedig â STEM
- AberSEED – Rhaglen gystadleuol a chynllun o wobrau ar gyfer mentrau sy'n denu buddsoddiadau.
- GwobrauAber – Rhaglen i gydnabod a gwobrwyo effaith mentrau cymdeithasol

Bydd PA yn cymryd rhan weithredol yn y gweithdai Datblygu Rhanbarthol a'r gweithgarwch sydd ar y gweill, megis y prosiect i wella dulliau llywodraethu rhanbarthol a buddsoddiad cyhoeddus yng Nghymru. Y bwriad yw sicrhau bod ein galluoedd yn cyfrannu at amcanion twf tymor hir a thymor byr y rhanbarth a Chymru, a

sicrhau hefyd bod ein strategaethau cymorth busnes a'n rhaglenni sgiliau newydd yn barod am fuddsoddiad.

(491 gair)

**4.1 Manylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol ein sefydliad ar gyfer cymorth i dyfu busnesau newydd a sgiliau**

Oherwydd maint a chyfraddau twf amrywiol y sefydliadau a’r sectorau yn amgylchedd economaidd canolbarth Cymru, bydd ein DPA yn olrhain y twf yn nifer y sefydliadau sy'n cael ein cefnogaeth ynghyd â’r galluoedd a'r sgiliau arloesi sy’n brin o ganlyniad i’w maint, eu llif arian, eu cyfleusterau neu arbenigedd.

Trwy fonitro'r data sy'n cynhyrchu mwy o wybodaeth ansoddol pan gânt eu cyfuno â'r mesurau cenedlaethol, byddwn hefyd yn llywio ein hymyriadau yn y maes hwn yn well.

Byddwn yn anelu at ddyblu'r busnesau newydd sy'n dechrau o flwyddyn i flwyddyn yn y cyfnod strategol. Byddwn yn anelu at ddyblu'r cyrsiau sgiliau a gynigir i fusnesau bach a chanolig yn y rhanbarth yn y cyfnod.

Felly bydd y metrigau sefydliadol a gaiff eu monitro ac sydd y tu allan i'r mesurau cenedlaethol yn cynnwys:

- Nifer y busnesau sy'n deor
- Cyfradd brosesu y busnesau newydd ar gynlluniau cymorth
- Nifer y contractau gwasanaeth a phartneriaethau busnes newydd
- Nifer y cyrsiau dysgu o bell a ddarperir ar gyfer busnesau bach, wedi'u dad-gyfuno ar gyfer sectorau twf rhanbarthol.
- Nifer y cyfleoedd Addysg Bellach ac Ymchwil a Datblygu (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Innovate UK a rhaglenni a gyllidir gan grantiau SMART)

**5. Cenhadaeth Ddinesig a Chyswllt â'r Cyhoedd:**


Yr hyn sy’n gyrru amcanion cyfnewid gwybodaeth y Brifysgol yng nghyswllt y gymuned yw’r Ganolfan Ddeialog - uned arloesol ar gyfer cyswllt ac effaith sy'n ymroddedig i weithio o fewn a thu allan i Brifysgol Aberystwyth i gefnogi cyfnewid gwybodaeth gydweithrediadol, ysgogi economïau cynaliadwy, annog dinasyddiaeth weithredol, a gwella ansawdd bywyd yng Nghymru.
Arweinir y ganolfan gan arbenigwr rhyngwladol am drefnu a hwyluso deialog ac fe'i cefnogir gan reolwyr prosiect, gweinyddwyr ac aelodau tîm cyfathrebu YBA.

Mae deialog yn rhoi pwyslais ar ddulliau ystyriol a gynllunnir i bontio'r bwlch trosiadol rhwng ymchwil a pholisi, trwy gynnwys llunwyr polisi, y sectorau preifat a chyhoeddus, a defnyddwyr yn uniongyrchol yn y prosesau cyd-gynhyrchu a gweithredu.

Fel catalydd i gysylltiadau atebol, hwyluso creadigol, a chyfnewid gwybodaeth, mae'r Ganolfan Ddeialog yn hyrwyddo deialog a chydweithio yn elfennau craidd yn niwylliant PA a arweinir gan ymchwil. Mae'r ganolfan yn meithrin amgylchedd sy'n rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau hirdymor sy'n barod i addasu, cyfathrebu agored, cydweithio rhyngddisgyblaethol, ac anghenion ac arbenigedd rhanddeiliaid allanol.

Yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Ganolfan Ddeialog hefyd yn mynd ati i archwilio dulliau o integreiddio diwylliant ac iaith Cymru yn ei gweithgareddau. Trwy hyrwyddo defnydd y Gymraeg ac ymgorffori arferion diwylliannol Cymru, mae'r ganolfan yn cyfrannu at gadw a dathlu'r hunaniaeth Gymreig. Bydd y dylanwad diwylliannol hwn yn y Brifysgol yn gwella cynhwysiant a chydlyniant cymunedol ac yn cefnogi ffyniant diwylliannol ehangach Cymru.

Cynllun gweithredol:




Bydd cefnogaeth CAYC i'r Ganolfan Ddeialog yn gwella effeithiolrwydd ymchwilwyr mewn prosiectau ymchwil cydweithrediadol a chymunedau ymarfer arloesol, ac yn cefnogi ymdrechion ym maes cydraddoldeb. Trwy roi cymorth cyfathrebu, cymorth trefnu digwyddiadau a gweithdai, a hyfforddiant sgiliau wedi'i deilwra'n arbennig i ymchwilwyr, mae'r ganolfan yn rhoi modd iddynt fynd i'r afael yn effeithiol â heriau'r byd go iawn a bodloni anghenion sgiliau diwydiannau Cymru. Bydd y gefnogaeth hon o fudd i ymchwilwyr unigol a bydd yn cyfrannu at allbwn ymchwil cyffredinol PA, a fydd yn ei dro yn cefnogi ffyniant economaidd trwy ysgogi arloesedd a meithrin partneriaethau â diwydiant.

Mae PA yn cynorthwyo i ddatblygu a chysylltu sgiliau rhanbarthol trwy ei gwneud yn bosib i gymunedau a diwydiant fanteisio ar adnoddau ac arbenigedd addysgol ac archwilio materion o amrywiol safbwyntiau, ystyried y canlyniadau hirdymor, a chanfod dulliau ystyriol o ddatrys problemau.
Bydd y Ganolfan Ddeialog yn sefydlu uwchgynhadledd gymunedol flynyddol yn canolbwyntio ar y materion sydd o bwys. Bydd yr uwchgynhadledd yn dod ag arweinwyr cymunedol, arloeswyr masnachol a llunwyr polisi ynghyd mewn trafodaeth â rhagoriaeth ymchwil PA, a bydd yn sylfaen ar gyfer cydweithio, cyfnewid gwybodaeth, a chodi ymwybyddiaeth am y materion cymhleth sy'n wynebu Cymru.

Bydd y Ganolfan hefyd yn trawsnewid yr Ŵyl Ymchwil bresennol yn Ŵyl Ddeialog, gan ddangos ymrwymiad PA i waith cyfnewid gwybodaeth cynhyrchiol sy'n canolbwyntio ar faterion o bwys. Mae'r ŵyl, sy'n denu ymchwilwyr, ymarferwyr a sefydliadau o bob cwr o'r byd, yn hwyluso'r gwaith o gyfnewid syniadau a chyfleoedd cysylltiedig â materion cymhleth a bydd yn gosod PA fel magned byd-eang ar gyfer deialog, cymwyseddau traws-ddiwylliannol, a hwyluso.
Bydd hyn yn cadarnhau enw da PA, yn denu cyfleoedd cydweithio rhyngwladol, ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd Cymru trwy feithrin arloesedd a chyfnewid gwybodaeth.

Mae'r Ganolfan Ddeialog yn cydnabod pwysigrwydd cloriannu ac asesu effaith ei phrosiectau.
Bydd CAYC yn cefnogi PA i greu offer pwyso a mesur rhaglenni, offer y gellir eu hehangu ar gyfer asesu cydweithrediad, cyswllt â'r cyhoedd, cydraddoldeb ac effeithiau ein prosiectau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth. Mae'r ymrwymiad hwn yn atgyfnerthu ein diwylliant o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwelliant parhaus wrth ddarparu addysg bellach.

(498 gair)

## 5.1 Manylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol ein sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Y Ganolfan Ddeialog fydd ysgogydd allweddol DPA ym maes cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
Bydd nifer yr aelodau cymunedol y cyrhaeddir atynt trwy ddigwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau Addysg a Hyfforddiant yn cyfrannu at ein mesurau, gan y byddwn yn arolygu adborth y cyfranogwyr i asesu ansawdd yr ymgysylltu ac effeithiolrwydd mentrau codi ymwybyddiaeth am y Ganolfan Ddeialog, ac i ganfod i ba raddau y mae aelodau'r gymuned yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u cynnwys.
Bydd nifer yr arweinwyr cymunedol, arloeswyr masnachol, llunwyr polisi a rhanddeiliaid rhyngwladol sy'n cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn hefyd yn cael eu mesur ochr yn ochr â'r graddau yr ymgorfforir arferion diwylliannol Cymru a defnydd o'r Gymraeg, gan hyrwyddo hunaniaeth Gymreig, a chyfrannu at ffyniant diwylliannol.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 1:**
Twf Cynaliadwy
Nod:

Cynyddu tîm ymroddedig y Ganolfan Deialog o 1.5 aelod staff cyfwerth ag amser llawn i 5 aelod staff cyfwerth ag amser llawn, i gefnogi prosiectau sy'n cael eu hysgogi'n fewnol ac yn allanol o fewn y cyfnod strategol. Targedu incwm codi arian allanol a gwaith ymgynghori o ddarpariaeth rhaglenni Deialog er mwyn ariannu costau staff a chostau gweithredol prosiectau.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 2:**
Partneriaethau, cyfranogiad ac oriau cynhyrchu
**Nod:**

Partneriaeth Canolfan Ddeialog mewn 2 brosiect ymchwil cydweithrediadol trawsnewidiol y flwyddyn.
Carfan hyfforddi flynyddol o 10 ymchwilydd PA wedi'u hyfforddi mewn deialog, hwyluso, cyfathrebu a rhagoriaeth ymchwil.
200 o oriau cyswllt blynyddol gydag ymchwil er mwyn ymgynghori ar gyd-gynhyrchu a dulliau cyfnewid gwybodaeth deialogaidd.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 3:**
Cyfradd Adborth a Llwyddiant
**Nod:**

Cael 70% o ganlyniadau 'cytuno' neu 'gytuno'n gryf' yn yr arolygon a gynhelir ar ôl digwyddiadau sy'n olrhain boddhad ac ymgysylltiad cyfranogwyr (yn seiliedig ar raddfa Likert), gan gynnwys y rhai gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau yng Nghaerdydd ym Mlwyddyn 1 - 2 y cyfnod strategol.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 4:**
Gwelliant Parhaus
**Nod:**

Datblygu pecyn cymorth asesu dull cymysg strategol PA cyn diwedd blwyddyn 3 y cyfnod strategol.
Profi gyda 4 prosiect ymchwil o bob rhan o'r Brifysgol er mwyn eu haddasu a'u gwella ym mlynyddoedd 4-5.
Cyhoeddi'r pecyn cymorth erbyn diwedd y cyfnod strategol.
Creu pecynnau cwestiynau i fesur y gwaith cydweithio, cydraddoldeb a hygyrchedd, ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn prosiectau ymchwil yn unol â blaenoriaethau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Dangosydd Perfformiad Allweddol 5:
Gwella dinasyddiaeth weithredol
Nod:

Mewn cydweithrediad â sefydliadau megis Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, cyrff cynrychioliadol eraill, ac ymarferwyr democrataidd cyfranogol, nodi metrigau allweddol dinasyddiaeth weithredol er mwyn diffinio a gwella tueddiadau mewn gweithgarwch ymgysylltu sy'n seiliedig ar leoliad.

Dangosydd Perfformiad Allweddol 6:
Cryfhau arferion ymgysylltu teg
Nod:

Mewn ymateb i'r galw cynyddol gan sefydliadau a grwpiau'r trydydd sector am ystyriaeth deg i gyfraniadau megis gwasanaethu ar fyrddau cynghori, cymryd rhan i gyd-gynhyrchu polisi, a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyhoeddus; datblygu canllaw Cymru gyfan a llawlyfr arfer gorau ar gyfer sefydliadau Addysg Uwch, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a Llywodraeth Cymru.

## Adran C: Cysoni â pholisi a blaenoriaethau
## 6. Cysoni â Pholisi Cymru a'r Deyrnas Unedig

Fel y crynhowyd yn adran B(3), bydd buddsoddiadau blaenorol CAYC nawr yn cael eu datblygu a'u hategu gyda chyfryngau ychwanegol cyfnewid gwybodaeth, er mwyn canolbwyntio ar gydweddu ag amcanion ffyniant a'r Fargen Dwf ranbarthol, cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru, blaenoriaethau buddsoddi Arloesi, Ymchwil a Datblygu Cymru a chenadaethau arloesi, a strategaeth Arloesi'r Deyrnas Unedig fel y'i cyflëir yn amcanion strategol UKRI.
Mae dolenni i fwy o wybodaeth wedi'u cynnwys yn y teitlau isod.
*Mae'r cyfryngau cyfnewid gwybodaeth a nodwyd yn cydweddu â Bargen Dwf Canolbarth Cymru ac mae datblygiadau pellach yn y cyfnod cynnig cyllido.

***Y Ganolfan Ddeialog:***
Trawsnewid diwylliant cyswllt a natur gyfranogol gwaith ymchwil ac arloesi Prifysgol Aberystwyth gyda chymunedau amrywiol trwy amryfal gyfleusterau a rhaglenni, gan ddechrau â gweithgarwch y Tŷ Trafod Ymchwil yn 2023 a chyrraedd uchafbwynt yn y ganolfan ddeialog flaenllaw yn Hen Goleg PA.

***Y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol*:***
Darparu profion, hyfforddiant, gwaith masnacheiddio a dilysu sy'n seiliedig ymchwil ar gyfer technolegau sbectrwm radio sy'n sbarduno newid ym maes cyfathrebu digidol, ynni gwyrdd ac adfywio trafnidiaeth. Annog arloesedd wedi'i arwain gan ddiwydiant a datblygu cyfleoedd i gydweithio a sgiliau traws-sectoraidd sy'n cael dylanwad cenedlaethol ac yn denu buddsoddiad.

***Y Ganolfan a Labordai Milfeddygol:***
Gan adeiladu ar ein gallu ymchwil sydd ar flaen y gad o ran datrys heriau iechyd anifeiliaid a phobl, bydd y Ganolfan a Labordai Milfeddygol yn darparu galluedd rhanbarthol a chenedlaethol mewn arloesi iechyd a monitro clefydau.
Bydd y Ganolfan a Labordai Milfeddygol, sydd wedi eu lleoli mewn adnodd cyfyngu lefel-uchel ar gyfer profi, ymchwilio a chadw golwg ar glefydau a heintiau anifeiliaid a dynol, yn adnodd a fydd yn blaenoriaethu iechyd gwladol fel yr amlygwyd yn ystod pandemig Covid-19.

***Campws Menter ac Arloesi ArloesiAber:***
Gan gatalyddu menter yn y sector biotechnoleg, amaeth-dechnoleg, bwyd a diod a'i ehangu yn 2020-23 i roi modd i fusnesau bach a chanolig ffynnu, bydd PA yn ceisio datblygu'r gallu hwn ymhellach gyda'r *Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd *:*
Bydd yn denu busnesau bach a busnesau angor rhanbarthol y bydd modd iddynt gyfrannu at agenda gwyrdd, carbon isel a fydd yn elwa o gyfnewid gwybodaeth gyda PA, yn ogystal ag ysgogi cyflogaeth a sgiliau gwerth uchel i'r rhanbarth.

***Canolfan Arloesi Cnydau:***
Bydd y adnodd hwn sy'n ehangu arbenigedd a phartneriaethau diwydiant PA mewn cynhyrchiant, iechyd, cynaliadwyedd, a sicrhau bod cnydau planhigion ar gael, yn rhoi cyfleusterau, technolegau a mathau o gnydau arloesol i fusnesau a sefydliadau'r trydydd sector a fydd yn sicrhau ffynonellau bwyd a chyflenwadau ynni adnewyddadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â mentrau cyllido twf rhanbarthol, Cynghorau Ymchwil a Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei datblygu'n bellach yn y cyfnod cynnig cyllido.

***Hybiau Ymchwil ac Arloesi Trawsddisgyblaethol***
Hybu cydweithio rhwng ymchwilwyr, ymarferwyr a phartneriaid trawsddisgyblaethol sy'n rhannu amcanion cyffredin sy'n cydweddu â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer twf glân a gwydn, iechyd cynaliadwy a gweithlu medrus. Gan fanteisio ar gryfderau ymchwil PA, yr hybiau thematig fydd: Hwb y Ganolfan Dyfodol Gwledig, Hwb Ein Byd wedi'i Alluogi gan Ddeallusrwydd Artiffisial a Hwb y Bydoedd a Fynnwn.

**Hwb Menter Busnes yr Hen Goleg**
Wedi'i leoli yn rhan ddeheuol adeilad yr Hen Goleg sydd newydd ei adnewyddu ar lan y môr Aberystwyth, bydd y lle pwrpasol a chynhwysol hwn yn annog busnesau newydd, yn ysbrydoli, mentora a chyd-gysylltu entrepreneuriaid yn y busnesau creadigol a digidol.

Gweler crynodeb o'r ffordd y mae'r ganolfan/hwb yn cydweddu â strategaeth Arloesi Cymru a'r Deyrnas Unedig isod:

| | Innovation strategy for Wales | | | | UK Innovation Strategy Pillars | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| | Education | Economy | Health & wellbeing | Climate & nature | Unleashing business | People | Institutions & places | Missions & technologies |
| Dialogue Centre | ■ | | ■ | | | ■ | ■ | ■ |
| Knowledge Exchange & Enterprise Hub | ■ | ■ | | | ■ | | | |
| National Spectrum Centre | ■ | ■ | | ■ | | | ■ | ■ |
| VetHub | ■ | | ■ | ■ | | | | |
| AberInnovation | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Green Futures Innovation Park | | | ■ | ■ | | | ■ | ■ |
| Crop Innovation Hub | | | ■ | ■ | | | ■ | ■ |
| Rural Futures Hub | ■ | ■ | | | | | ■ | ■ |
| Worlds We Want Hub | ■ | ■ | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ |
| AI Enabled World Hub | ■ | ■ | | | ■ | | | ■ |
| Old College Business Enterprise Hub | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |

(492 gair)

## 7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

PA yw'r unig brifysgol yng nghanolbarth Cymru, amgylchedd gwledig ag iddi gyflogaeth uchel ond cynhyrchiant isel ac sy'n awyddus i dyfu. Mae prinder sylweddol o sgiliau traws-sector ond mae'r swyddi gwerth uchel i raddedigion medrus wedi eu cyfyngu gan nifer y busnesau mwy eu maint sydd yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae ein hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig gref a'n poblogaeth sy'n gweld gwerth cymuned yn arwain at ddyhead cenedlaethau o fyfyrwyr ac ymchwilwyr yn y dyfodol i aros neu ddychwelyd i'r rhanbarth. Felly mae gan PA ymrwymiad dwfn i saith nod llesiant y Ddeddf.

Mae'r strategaeth cyfnewid gwybodaeth CAYC hon yn manteisio ar ein cryfderau arloesi sy'n cyflawni:
- *ffyniant* a *gwytnwch* trwy arloesi ym meysydd bwyd ac amaethyddiaeth,
- *Cymru iachach* trwy ein datblygiadau arloesol a'n harbenigedd ym maes iechyd anifeiliaid a phobl,
- *cymunedau cydlynol* trwy arloesi technoleg Deallusrwydd Artiffisial a sbectrwm radio er mwyn defnyddio cyfathrebu digidol yn ehangach ac yn fwy soffistigedig, yn ogystal â llunio polisïau a arweinir gan y gymuned ac arloesi sy'n gysylltiedig â'r gymuned

- *cyfrifoldeb byd-eang* trwy greu amgylcheddau arloesi i entrepreneuriaid sy'n canolbwyntio ar ddyfodol gwyrddach, tecach, gwella'r defnydd o'n hadnoddau naturiol, a chefnogi ymddygiad cynaliadwy
- *diwylliant byw ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu* trwy ymgysylltiad a thrafodaeth wedi eu cynllunio'n dda sy'n nodweddiadol o waith y Ganolfan Ddeialog, sy'n ymgorffori'r Gymraeg a diwylliant Cymru, yn ogystal â thegwch a chynwysoldeb i greu polisi cyhoeddus cyfranogol, ac sy'n mapio sefydliadau sydd wedi'u hangori yn y gymuned i sbarduno newid pellach er daioni.

Mae ein Hwb y Bydoedd a Fynnwn yn enghraifft ddelfrydol o'r ffordd y mae PA yn buddsoddi yn y *pum ffordd o weithio* a amlinellir yn y Ddeddf.

(245 gair)

## 8. Effaith ar y Gymraeg

Bydd PA yn dal ati i ddatblygu ei henw da a'i hanes fel prifysgol ddwyieithog flaenllaw, gan ymgorffori'r iaith trwy gyflwyno ein Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant. Bydd buddsoddiad CAYC a enillwyd gyda Rhaglen Arfor 2 yn rhoi modd i PA i fynd i'r afael â thair thema cynllun gweithredu Cymraeg 2050.

**Thema 1:** Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
Sicrhau bod modd i staff rheng flaen y gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth roi gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg ac ar ffurf sy'n hygyrch i ddysgwyr Cymraeg.
Hyrwyddo menter mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith sy'n cynyddu rhagolygon swyddi ac yn cadw siaradwyr Cymraeg yn ein rhanbarth.
Datblygu graddfa a boddhad â gwasanaeth ein darpariaeth dysgu Cymraeg trwy gyrsiau hyfforddiant DPP, Dysgu Parhaus, ac AHO wyneb yn wyneb ac o bell.

**Thema 2:** Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
Cryfhau hunaniaeth ein partneriaethau cyfnewid gwybodaeth gyda chymunedau Cymraeg eu hiaith er mwyn lledaenu ymdeimlad o deyrngarwch sy'n seiliedig ar leoliad trwy'r iaith.
Datblygu cyfleoedd i fusnesau Cymru ddysgu'n ddwyieithog trwy gyrsiau DPP, cydweithio ar arloesi a chyfnewid gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Thema 3:** Creu amodau ffafriol – isadeiledd a chyd-destun.
Hyrwyddo, ehangu a gwella ein gwasanaethau cyfieithu yn barhaus i fusnesau a chymunedau yn genedlaethol.
Anelu ym mhob achos at weithredu systemau cymorth cyfnewid gwybodaeth yn y Gymraeg, boed y gwasanaethau'n rhai digidol neu bersonol.
Gwella galluedd y Ganolfan Ddeialog i gynnig rhaglen a digwyddiadau yn y Gymraeg, a gaiff eu monitro trwy sianeli adborth cymunedol.

(221 gair)

## Adran D: Defnyddio Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru

**Pobl, Sgiliau a Systemau:**
Mae denu staff yn ystod ac ar ôl COVID-19 wedi bod yn heriol ac er y byddwn yn parhau i ddefnyddio cyfran sylweddol o grant CAYC ar gyfer staff sy'n ysgogi'r rhaglenni gwaith, byddwn yn:

- Neilltuo'r grant capasiti i drawsnewid gallu digidol y staff, a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

- Targedu sefyllfa hunangynhaliol i ganolfannau a hybiau ym Ml1-3, gyda'r gallu i ariannu cymorth cyfnewid gwybodaeth y gellir ei ehangu y tu hwnt i'r ganolfan/hwb ym Ml4-5.
- Cynnal gweithgareddau cronfa sbarduno ac ysgogi mewn dull graddedig yn unol ag aeddfedrwydd gweithredol pob canolfan/ hwb ac ehangu'r portffolio Eiddo Deallusol.

**Safonau ac Arferion:**
Bydd ein hymrwymiad i fodloni egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn cael ei ddangos a'i gyllido yn ôl y darpariaethau sefydliadol allweddol a grynhoir isod:

| Key Deliverable | Meeting KE Concordat Principles |
|---|---|
| Programming & project management of RWIF strategy delivery | 2,4,5,7,8, |
| Customer relationship & business development | 3,4,5,7,8 |
| Increase innovation infrastructure funding (including leveraged) | 4,5,7,8 |
| Hubs KE capability development | 1,2,3,4,5 |
| Increase innovation project funding (revenue) | 3,4,5,7,8 |
| Increase Inventorship and Commercialisation volume and value | 2,3,4,5,6,7,8 |
| Improve governance of KE and CR&D activity | 1,2,3,4 |
| Continuous improvement of KE supporrt services | 2,,4,7,8 |
| Increase project funding via WIN | 3,7,8 |
| Culture change | 1,2,4,6,7,8 |

Bydd hyn yn gofyn parhau i ganolbwyntio ar feysydd a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Concordat Newid Gwybodaeth, megis:
- Datblygu arweinyddiaeth cyfnewid gwybodaeth, gan sicrhau cenhadaeth eglur.
- Cymdeithasoli cryfderau a chyfleoedd yn well.
- Gwella a datblygu ein diwylliant cyfnewid gwybodaeth mewnol.
- Cynyddu ein cymorth galluogi, ymgysylltu a chyfathrebu.
- Sicrhau capasiti a gallu mewnol i weithredu partneriaethau a chydweithrediadau mawr.
- Cydnabod a dathlu ein llwyddiannau a hyrwyddo gwaith amlddisgyblaethol a thrawsadrannol.

**Crynodeb o ddyraniad y gwariant:**

| Spend Area | Proportion (%) of Spend |
|---|---|
| Capacity, People (core) and Systems | 35 |
| Commercialisation / income generating activity | 25 |
| New business growth and skills support | 20 |
| Civic Mission and Public Engagement | 20 |

(193 gair)

| | |
|---|---|
| **Adran E:**<br>**Gofynion Rheoleiddio**<br>*DS: Gall CCAUC ofyn am wybodaeth / eglurhad pellach ar unrhyw un o'r meysydd hyn* | |
| i) Safonau'r Gymraeg (2018) | Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018 |
| ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Mae Sgrinio Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal ar y strategaeth hon |
| iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) | Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu tuag at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 |
| **Yr wyf yn cadarnhau bod y Brifysgol yn ymrwymedig i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a'i bod yn gwbl ymrwymedig i'w wyth egwyddor arweiniol.** | |
| **Llofnod:**<br>**Is-Ganghellor** | |
| **Dyddiad** | |